



# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 - 2020

## Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

## Cynnwys

## Tudalen

Cyflwyniad	3
1 Rheolau brandio a logo	4
1.1 Brandio a Logos	4
1.2 Logo UE/ Llywodraeth Cymru	4
1.3 Maint	6
1.4 Math o Ffont a'i Faint	6
1.5 Gofod	7
1.6 Ie a Na	7
1.7 Awgrymiadau a Chyngor	8
1.8 Eitemau Hyrwyddo	8
1.9 Arian o fwy nag un ffynhonnell	8
2. Placiau	8
3. Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus	9
3.1 Hysbysebion Swydd	10
3.2 Datganiadau i'r Wasg	10
3.3 Y Wasg a Deunyddiau Marchnata	11
3.4 Eich gwefan	11
3.5 Cyfryngau Cymdeithasol	11
3.6 Gwybodaeth/Deunyddiau Cyhoedduswydd Arall	11
3.7 Deunydd swyddfa corfforaethol	12
3.8 Digwyddiadau Gwybodaeth	12
3.9 Diwrnod Ewrop	12
3.10 Eitemau Hyrwyddo	12
4. Hysbysu Buddiolwyr	12
4.1 Llythyrau/Contractau Cymeradwyo	13
5. Cadw mewn cysylltiad	13
6. Y Gymraeg a Datblygu Cynaliadwy	13
7. Gwybodaeth Bellach	14
Atodiad 1 - Canllawiau Brandio RhDG - Taflen Gryno Logos	15
Atodiad 2 – Cynnwys Astudiaethau Achos	16

## Cyflwyniad

Mae'r Canllawiau hyn ar Wybodaeth a Chyhoeddusrwydd wedi cael eu llunio gan Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru, rhan o Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod trefniadau cynnal prosiectau yn ymgorffori mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd.

Mae cydnabod nawdd Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yn amod o dderbyn cyllid gan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Cyfeirir at yr amod yn llythyr cymeradwyo'r prosiect. Fel rhan o ymweliadau Tîm Archwilio a Dilysu Prosiectau Llywodraeth Cymru, sicrheir bod y cymorth a gafwyd gan yr UE yn cael ei gydnabod yn unol â'r gofyn ar holl ddogfennau'r prosiect ac ar unrhyw wybodaeth a chyhoeddusrwydd arall, gan gynnwys deunydd electronig. Gellid gofyn am y grant neu ran ohono yn ôl os gwelir nad yw'r grant wedi'i gydnabod.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut y gall noddwyr y prosiect gwrdd â'r gofynion o ran darparu cyhoeddusrwydd ym mhob sefyllfa (e.e. defnyddio logos ar ddeunydd ysgrifennu, taflenni, gwefannau ac ati, astudiaethau achos a hysbysiadau i'r wasg) ac â phwy y dylech gysylltu i gael rhagor o wybodaeth a chynghor, a lle bo gofyn, i gael cymeradwyaeth (e.e. maint y logo).

Bydd gofyn i noddwyr prosiect sicrhau bod amodau tebyg yn eu contractau â'u darparwyr hwythau.

## Costau cyhoeddusrwydd

Lle y mae'r cynllun yn caniatáu hynny, gall costau cyhoeddusrwydd gael eu cynnwys fel costau cymwys y prosiect. Bydd gofyn i brosiectau Buddsoddi Cyfalaf gysylltu ag Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRNSU)

[Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk) i gofrestru ar gyfer sticeri, placiau neu hysbysfyrdau. Fel rheol nid oes angen i brosiectau buddsoddi cyfalaf ddefnyddio logos yr UE ar eu deunyddiau papur, gwefan nac ar ddeunyddiau cyfathrebu eraill ynghylch y cwmni. Lle y mae cyhoeddusrwydd yn ymwneud yn benodol â buddsoddiadau cyfalaf mae angen i ymgeiswyr ystyried y canllawiau ynghylch cyhoeddusrwydd a lle y bo'n bosibl gysylltu ag Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru ymlaen llaw.

Bydd angen i brosiectau refeniw sy'n cael eu cynnal dros gyfnod o flwyddyn fel rhan o'r cynllun busnes gyflwyno'u cynllun cyhoeddusrwydd fel tystiolaeth a threfnu bod yr WRNSU yn cymeradwyo'u cynigion ar ddechrau'u prosiect. Fel rheol bydd gofyn i bob gweithgaredd sydd ynghlwm wrth brosiect ddefnyddio logos ar bob deunydd gan gynnwys gwefannau.

## Cyhoeddi manylion y prosiect ar wefan Llywodraeth Cymru

Dylai noddwyr y prosiect fod yn ymwybodol y caiff manylion sylfaenol y prosiect cymeradwy, yn unol â Rheoliadau'r CE, eu dangos ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys enw'r buddiolwr, enw'r prosiect a faint o grant yr EAFRD sydd wedi'i roi.

Gallai'r WRNSU ddewis hefyd roi cyhoeddusrwydd i brosiectau cymeradwy trwy sianeli eraill (e.e. datganiadau i'r wasg, hysbysebion, taflenni, digwyddiadau ac ati).

### 1 Rheolau brandio a logo

#### 1.1 Brandio a Logos

Yn unol ag Atodiad III i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 a Rheoliad CE (UE) Rhif 1305/2013, rhaid cydnabod a hyrwyddo'r cymorth a roddir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, sef "EAFRD".

Wrth lunio cyhoeddiadau (llyfrynnau, taflenni, llythyrau, poster, hysbysebion, ffurflenni cais, deunydd ysgrifennu corfforaethol, baneri arddangos i'w defnyddio mewn cynadleddau a digwyddiadau ac ati) sy'n ymwneud â'r rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, mae'n rhaid sicrhau bod logos Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a logo Llywodraeth Cymru (a logo LEADER lle mae'n berthnasol) yn cael eu harddangos ar glawr blaen y ddogfen/deunydd, h.y. y ddalen flaen. Os na ellir rhoi logos ar y clawr blaen, dylai pob logo ymddangos gyda'i gilydd ar gefn y clawr blaen neu'r tu mewn iddo.

#### 1.2 Logo EAFRD/Llywodraeth Cymru



Mae'r logo yn cynnwys pedair elfen fel a ganlyn:

- Arwyddlun yr Undeb Ewropeaidd yn unol â'r safonau graffeg a nodir yn Atodiad III i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014.

- b. Cyfeiriad at gymorth Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).
- c. Y datganiad "Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig";
- ch. Logo Llywodraeth Cymru.

Dylai logo bob amser ymddangos mewn lliw llawn.  
Dylai is-bennawd yr UE bob amser ymddangos o dan

***\*Noder, mae'n rhaid i is-bennawd yr Undeb Ewropeaidd bob amser ymddangos o dan faner yr Undeb Ewropeaidd.***

Os bydd cam wybodaeth neu gyhoeddusrwydd yn ymwneud â gweithred(au) a gydariannir gan fwy nag un gronfa strwythurol Ewropeaidd, gall y cyfeiriad a roddir ym mhwynt b gael ei ddisodli gan gyfeiriad at gronfeydd ESI.

Mae'r arwyddlun yn y lliwiau canlynol: 'Pantone Reflex Blue' a 'Pantone yellow' ar gyfer y sêr.

Mae fersiwn du a gwyn o'r logo ar gael ond **yr unig dro** y dylid defnyddio hwn yw os ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Rheolwr Cyfathrebu neu Uned Gymorth Rhwydwaith Wledig Cymru drwy e-bostio [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk). Amlinellwch yr hirsgwar mewn du ac argraffwch y sêr mewn du ar wyn. **Ni cheir** llungopïo'r logo lliw er mwyn creu fersiwn du a gwyn.

Yn ddelfrydol, dylai'r logo gael ei atgynhyrchu ar gefndir gwyn. Peidiwch â defnyddio cefndir â sawl lliw. Os nad oes dewis amgen i gefndir lliw, rhowch ymyl gwyn o amgylch y logo.



Noder bod ffrâm wen yn cael ei gynnwys yn awtomatig ar y fersiynau o'r logo ar gyfer y dylunwyr.

Mae'r logo ar gael mewn fformat JPEG i'w ddefnyddio ar ddogfennau Word/y We neu PowerPoint ac mewn fformat EPS eglur iawn i'w ddefnyddio gan ddylunwyr proffesiynol mewn cyhoeddiadau argraffedig. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

### 1.3 Maint

Os byddwch yn arddangos sawl logo, yn ogystal â'r logo hwn, ceir gostwng y maint cyn belled â bod y testun sydd yn logo'r UE yn weladwy.

### 1.4 Math o Ffont a'i Faint

Y ffont a ddefnyddir yw 'syntax' a'i faint lleiaf yw 12 pwynt; ni ddylai'r rhain gael eu newid.

Nid oes uchafswm maint ond rhaid i'r logo gael ei atgynhyrchu i ansawdd boddhaol pan y'i gwneir yn fwy.

Mae'n rhaid i'r logo fod yn gymesur â'r holl logos eraill gan roi'r un pwys i bob un.

Rhaid gallu darllen y testun.

Mae hefyd angen i unrhyw ddeunydd hyrwyddo sy'n cwmpasu LEADER arddangos logo LEADER hefyd.



Pan y'i defnyddir ochr yn ochr â brandiau sefydliadau eraill, rhaid sicrhau bod y logo yn cael yr un pwys drwy sicrhau eu bod i gyd yr un uchder. Er enghraifft, os mai'r prif logo yw'r brand ar frig dogfen, gall logos y partneriaid ariannu eraill gael eu rhoi'n gyfartal mewn un llinell oddi tano. Gellir arddangos logos eraill gan bartneriaid ayyb un ai i'r chwith o


logo EAFRD neu mewn llinell oddi tanno ac ni chân nhw fod yn fwy o ran maint na logo'r UE.



Mae'r logos ar gael drwy e-bostio [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk) ac maen nhw wedi cael eu rhagosod gan y tîm dylunio o fewn Llywodraeth Cymru.

## 1.5 Gofod

Dyma'r gofod gwag a ddylai amgylchynu'r logo. Ei nod yw sicrhau y ceir effaith weledol, heb i elfennau eraill fel logos, testun arall ac ati amharu arno.



## 1.6 Ie a Na

**Peidiwch â newid y logo.**

**Dylech bob amser atgynhyrchu'r logo o'r celfwaith digidol.**

Peidiwch â newid safle'r elfennau

Peidiwch â newid y ffont

Peidiwch â newid y lliwiau

Peidiwch â llenwi'r gofod

Peidiwch â newid y testun

Peidiwch â cham-lunio'r ddelwedd

**PEIDIWCH** â defnyddio fersiwn JPEG ar gefndir lliw oherwydd bydd yn golygu bod blwch gwyn yn ei amgylchynu. Dylai'r fersiwn **EPS** gael ei ddefnyddio yn yr achos hwn. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd y cefndir yn un aml-liw a bod y logos yn aneglur.

## 1.7 Awgrymiadau a Chyngor

Er mwyn trin y fersiynau JPEG mewn dogfen Word, ewch i insert/picture/from ffeil ac yna mewnosodwch fel y bo'n briodol.

Er mwyn cael lluniau i newid maint i raddfa wahanol, cliciwch ar y llun er mwyn amlygu'r blychau du bach ar flwch y ddelwedd ac yna cliciwch ar unrhyw un o'r pedwar marc blwch cornel, daliwch 'shift' i lawr a thynnwch y blwch i mewn neu allan nes ichi gael y maint cywir.

## 1.8 Eitemau Hyrwyddo

Rhaid i unrhyw eitem a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd arddangos logo EAFRD yr UE. Os hoffech greu eitemau hyrwyddo bach, fel beiros, cylchau allwedd ac ati, ac os ydych yn brin o le, rhaid cael cymeradwyaeth Rheolwr Cyfathrebu/Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru drwy e-bostio [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk) er mwyn defnyddio'r faner heb yr is-bennawd h.y. enw'r gronfa.

## 1.9 Arian o fwy nag un ffynhonnell

Os defnyddir arian mwy nag un ffynhonnell, rhaid cynnwys brandiau ar gyfer cronfeydd ychwanegol h.y. logo Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chyfoeth Naturiol Cymru.



Darllenwch Atodiad 1 i gael canllawiau pellach ar sut i ddefnyddio logo'r Undeb Ewropeaidd.

## 2. Placiau



Yn unol â Rheoliadau'r UE, o dan rai amgylchiadau, mae'n rhaid i fuddiolwyr nodi eu bod wedi derbyn cyllid EAFRD o dan y cynllun drwy arddangos poster, plac neu fwrdd poster.

Mae placiau parhaol yn ffordd ragorol o ddangos eich bod wedi cael help gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Mae'n holl blaciau dwyieithog ar gael yn rhad ac am ddim i bob noddwr a buddiolwr. Caiff plac ei anfon atoch yn awtomatig pan gaiff y cyllid ei gymeradwyo; gallwch ofyn am ragor o blaciau gan y Rheolwr Cyfathrebu neu gysylltu â'r Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru - e-bostiwrch [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk).

Lle mae'n bosibl, mae'n rhaid i'r plac gael ei osod mewn prif fynedfa/derbynfa neu yn y rhan mwyaf cyhoeddus o'r adeilad. Mae'n rhaid i'r cyhoedd allu ei weld yn glir yn ogystal â'r staff, cyfranogwyr a buddiolwyr eraill.

Wrth gyflawni gweithred, bydd y buddiolwr yn hysbysu'r cyhoedd am y cymorth a gafwyd gan EAFRD fel a ganlyn:

- (a) ar gyfer gweithrediadau nad ydynt yn perthyn i bwynt (c), a bod cyfanswm y cymorth cyhoeddus uwchlaw EWR 10 000 ac yn dibynnu ar y gweithrediad a ariannwyd (er enghraifft ar gyfer gweithrediadau o dan Erthygl 20 ar adnewyddu pentref neu weithrediadau LEADER), arddangos o leiaf un poster sy'n cynnwys gwybodaeth am y gweithrediad (maint A3 o leiaf), sy'n tynnu sylw at y cymorth ariannol a gafwyd gan yr Undeb, mewn lleoliad sy'n weladwy i'r cyhoedd, fel mynedfa adeilad.
- (b) os bydd gweithrediad o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn arwain at fuddsoddiad (er enghraifft, ar fferm neu fenter fwyd), a bod cyfanswm y cymorth cyhoeddus uwchlaw EWR 50 000, bydd y buddiolwr yn gosod plac esboniadol sy'n cynnwys gwybodaeth am y prosiect, gan dynnu sylw at y cymorth ariannol a gafwyd gan yr Undeb, mewn lleoliad sy'n weladwy i'r cyhoedd, fel mynedfa adeilad. Bydd plac esboniadol hefyd yn cael ei osod ar safle grwpiau gweithredu lleol a ariannwyd gan LEADER;
- (c) caiff bwrdd poster dros dro sydd o faint sylweddol ar gyfer pob gweithrediad, ac sy'n cynnwys ariannu seilwaith neu weithrediadau adeiladu y mae cyfanswm y cymorth cyhoeddus ar gyfer y gweithrediad uwchlaw EWR 500 000, ei osod mewn lleoliad sy'n weladwy i'r cyhoedd, gan dynnu sylw at y cymorth ariannol a gafwyd gan yr Undeb.
- (ch) O fewn tri mis i gwblhau gweithrediad fan bellaf, bydd y buddiolwr yn gosod plac neu fwrdd poster parhaol o faint sylweddol mewn lleoliad sy'n weladwy i'r cyhoedd ar gyfer pob gweithrediad sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:
  - (i) mae cyfanswm y cymorth cyhoeddus ar gyfer y gweithrediad uwchlaw EWR 500 000; EN L 227/54 Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 31.7.2014
  - (ii) mae'r gweithrediad yn cynnwys prynu gwrthrych ffisegol neu ariannu seilwaith neu weithrediadau adeiladu.
  - (iii) bydd y bwrdd poster hwn yn nodi enw a phrif amcan y gweithrediad ac yn tynnu sylw at y cymorth ariannol a gafwyd gan yr Undeb.
  - (iv) bydd y byrddau poster, poster, placiau a gwefannau yn cynnwys disgrifiad o'r

prosiect/gweithrediad a'r elfennau y cyfeiriwyd atynt ym mhwynt 1.2 o Ran 1. Bydd y wybodaeth honno yn cyfrif am o leiaf 25% o'r bwrdd poster, plac neu dudalen we.

### 3. Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a noddwyr y prosiect yn cydweithio i wneud y gorau un o gyhoeddusrwydd ar gyfer y prosiectau a thynnu sylw at y cyfraniad y mae EAFRD yn ei wneud yng Nghymru. Felly, cyn bod noddwr prosiect yn mynd ati i greu cyhoeddusrwydd ar gyfer y prosiect sy'n ymwneud â'r cyfryngau, dylen nhw yn gyntaf gysylltu â'r Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru dros e-bost – [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk).

Dylid cadw cofnodion o gyhoeddiadau ffurfiol ac anffurfiol, erthyglau yn y wasg a chyfnodolion a datganiadau i'r wasg, cyfweiliadau yn y wasg (teledu a radio) a lansiadau ac agoriadau swyddogol i ddangos eich bod yn ymgymryd â mesurau cyhoeddusrwydd yn ystod bywyd y prosiect. Bydd hyn hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i fonitro unrhyw sylw yn y cyfryngau ynghylch y rhaglen.

Mae'n ofynnol egluro'r rhan y mae'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru yn ei chwarae yn nhestun y ddogfen h.y. hysbysebion swydd, datganiadau i'r wasg, posteri etc. Mae enghreifftiau isod.

#### 3.1 Hysbysebion Swydd

Dylai'r logos ymddangos ar bob hysbyseb swydd. Os bydd lle yn brin iawn ar hysbyseb, gall y testun gael ei ddefnyddio i gyfeirio at y cyllid.

##### Saesneg

This post is part-funded through the Welsh Government Rural Communities -Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the Welsh Government and the European Union.

##### Cymraeg

Ariennir y swydd hon yn rhannol drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Ar gyfer cynlluniau a ariennir yn llawn, dylai'r geiriad gael ei addasu'n briodol.

#### 3.2 Datganiadau i'r Wasg

Yr arfer safonol yw nad yw logos yn ymddangos ar ddatganiadau i'r wasg. Felly, bydd y geiriad yn y datganiad yn newid er mwyn cydnabod y gronfa.

##### Saesneg

This project has received funding through the Welsh Government Rural Communities - Rural

Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.

## Cymraeg

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

### 3.3 Y Wasg

Mae'n rhaid i ddatganiadau i'r wasg gael eu cymeradwyo gan y Uned Gymorth Rhwydwaith Wledig Cymru drwy e-bostio [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk).

I fonitro'r amod hwn a chyn bod unrhyw ddatganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi, dylid ei e-bostio o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk). Bydd y trefniant hwn hefyd yn ein galluogi i ystyried ychwanegu dyfyniad gan Weinidog a/neu drefnu bod Gweinidog yn bresennol yn y digwyddiad arfaethedig, yn ogystal â'i gynnwys yn ystod camau trefnu'r digwyddiad. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau y gallwn ni wneud y mwyaf o Gysylltiadau Cyhoeddus sy'n ymwneud â'r digwyddiad, yr hyn y mae'r prosiect yn ceisio ei gyflawni a cherrig milltir/astudiaethau achos trwy hybu hanesion ar dudalennau gwe y Rhwydwaith Gwledig a rhoi sylw i'r prosiect/rhaglen yn y wasg ranbarthol, genedlaethol ac yn yr Undeb Ewropeidd ayyb.

Yr unig dro y gellir defnyddio byrfoddau mewn dogfen yw pan mae'r enw'n cael ei arddangos yn llawn ynghyd â'r byrfodd yn y lle cyntaf.

### 3.4 Eich gwefan

Dylid nodi'n glir ar wefan y noddwr ei fod wedi cael arian gan yr Undeb Ewropeidd ac arddangos y logo (a logo LEADER lle mae hynny'n berthnasol) yn glir ar y dudalen hafan a hefyd dolen i wefan y Comisiwn Ewropeidd sy'n ymwneud a'r EAFRD - <http://eur-lex.europa.eu/browse/summaries.html>. Os oes yna logos eraill ar y dudalen, mae'n rhaid i bob logo fod yr un mor weladwy ac amlwg a'r lleill. Mae'r logos ar gael fel EPS, JPEG neu GIF.

### 3.5 Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym yn disgwyl i dudalen hafan eich gwefan a'ch presenoldeb cyfryngau cymdeithasol gydnabod arian gan yr EAFRD a Llywodraeth Cymru ar ffurf logo a geiriad. Ni ddisgwylir ichi gynnwys y logo a'r geiriad ym mhob neges.

### 3.6 Cyhoeddusrwydd/deunydd arall

Mae cyhoeddiadau'n dal i fod yn offeryn marchnata gwerthfawr iawn. Mae'n rhaid dangos logo (a logo LEADER lle mae hynny'n berthnasol) yn glir ar bob cyhoeddiad/taflen/llyfryn/pamffled sy'n ymwneud â'r prosiect er mwyn gallu cydnabod yr help ariannol y mae'r prosiect wedi'i gael.

### 3.7 Deunydd swyddfa corfforaethol

Mae deunydd swyddfa corfforaethol yn cynnwys papur pennawd, slipiau cyfarch, padiau ysgrifennu, cardiau busnes etc. Dylid defnyddio'r logo (a logo LEADER lle mae hynny'n berthnasol) ar yr holl ddeunydd swyddfa sy'n ymwneud â'r prosiect sydd wedi cael help ariannol gan Ewrop ac os yn bosibl, dylid ei osod ar ochr dde'r deunydd. Ym mhob achos, dylai'r logo fesur 45mm ar draws a 33mm o uchder ac mae'n rhaid iddo fod yn hawdd i'w ddarllen.

### 3.8 Digwyddiadau gwybodaeth

Mae'n rhaid i gynadleddau, seminarau, ffeiriau ac arddangosfeydd sy'n ymwneud a phrosiectau sydd wedi cael arian gan Ewrop arddangos y logo (a'r logo LEADER lle mae hynny'n berthnasol) mewn man amlwg (e.e. stondinau arddangos/baneri a deunydd darllen) ac ar unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd arall a ddefnyddir ar gyfer y digwyddiad. I sicrhau bod eich logo yn cael ei harddangos yn briodol ar stondinau gyda baneri/deunydd symudol ayyb, e-bostiwch eich dyluniadau i [Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk) er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.

### 3.9 Diwrnod Ewrop

Anogir prif noddwyr y prosiect i arddangos y faner Ewropeaidd ar eu safle yn ystod wythnos 9 Mai (diwrnod Ewrop) yn ystod pob blwyddyn o fodolaeth y rhaglen – 2014-2020.

### 3.10 Eitemau hyrwyddo

Dylai'r eitemau hyrwyddo gynnwys baneri, stondinau codi, cyflwyniadau gweledol, beiros, pensiliau, cortynnau gwddf, mygiau, cylch allweddi, bagiau, crysau-t etc. Dylid defnyddio'r logo (a logo LEADER lle mae hynny'n berthnasol) ar yr holl eitemau hyrwyddo sy'n ymwneud â'r prosiect sydd wedi cael help ariannol gan Ewrop ac os yw'n bosibl, gosod y logos ar ochr dde'r deunyddiau. Ym mhob achos, dylai'r logos fod o leiaf 45mm ar draws a 33mm o uchder ac mae'n rhaid iddo fod yn hawdd i'w ddarllen.

## 4. Hysbysu buddiolwyr

Mae disgwyl i noddwyr prosiectau hysbysu'r buddiolwyr / cyfranogwyr bod y prosiect y maen nhw'n rhan ohono wedi cael arian gan Ewrop. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fuddiolwyr cynlluniau hyfforddi a chyflogaeth, a busnesau a grwpiau cymunedol sy'n elwa ar arian gan Ewrop. Mae nodi'n glir yr help ariannol y mae'r prosiect wedi'i gael gan Ewrop mewn llythyrau at fuddiolwyr, yn ogystal â defnyddio'r logo (a logo LEADER lle mae'n berthnasol)

ar dystysgrifau dyfarnu / ffurflenni cais ac ati yn rhai o'r opsiynau niferus sydd ar gael i chi. Dylid gosod y plac mewn lle amlwg ac mae mewn lle hawdd i'r buddiolwyr ei weld.

## 4.1 Llythyrau/Contractau Cymeradwyo

Rhaid i'r llythyrau sy'n cael eu hanfon at yr ymgeiswyr yn cadarnhau eu bod yn llwyddiannus gynnwys y gofynion canlynol gan yr Undeb Ewropeaidd:

- Mae'r grant y maen nhw'n ei gael yn cael ei ariannu'n rhannol gan yr Undeb Ewropeaidd trwy'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig.
- Mae'r grant y maen nhw'n ei gael yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.
- Y mesurau perthnasol.
- Nodyn i'w hatgoffa y bydd manylion cytundebau yn cael eu cyhoeddi.
- Gwybodaeth am blaciau/hysbysfyrdau/datganiadau i'r wasg a beth sydd angen ei gynnwys mewn astudiaethau achos.

### **I wybod sut i lunio Astudiaethau Achos, darllenwch Atodiad 2.**

## 5. Cadw mewn cysylltiad

Mae'n hanfodol bod noddwyr prosiectau a Llywodraeth Cymru'n cydweithio er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni Rheoliadau Gwybodaeth a Chyhoedduswydd y Comisiwn Ewropeaidd (1305/2013). Felly, mae'n bwysig eich bod yn ein cynnwys ar eich rhestr bostio ar gyfer y datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, cylchlythyrau arfaethedig ac ati.

Mae'n bosibl y bydd gan staff Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 a/neu Weinidog Llywodraeth Cymru ddiddordeb mewn mynd i ddigwyddiadau i lansio'r prosiectau. Hefyd, rydym yn croesawu unrhyw luniau / DVD o'r prosiect; gallwn eu defnyddio fel rhan o'n mesurau cyhoedduswydd ein hunain i hybu sut mae Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yn creu buddiannau i bobl a chymunedau Cymru.

## 6. Y Gymraeg a datblygu cynaliadwy

Yn unol â Safonau Iaith Llywodraeth Cymru a Iaith Pawb, dylai unrhyw gyhoedduswydd sy'n ymwneud â'ch prosiect fod yn ddwyieithog os yn bosibl. Mae gweithgarwch cyhoedduswydd, gan gynnwys costau cyfieithu, yn gost prosiect cymwys, felly cofiwch drafod y mater hwn gyda'ch swyddog datblygu prosiect pan fyddwch yn dechrau paratoi ar gyfer ymgeisio am arian o'r gronfa Ewropeaidd.

Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth i'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy wrth argraffu llenyddiaeth a defnyddio deunyddiau y mae modd eu hailgylchu.

## 7. Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o gyngor a chyfarwyddyd ar wybodaeth a gweithgareddau cyhoedduswydd ar gyfer eich prosiect, e-bostiwch y Rheolwr Cyfathrebu neu Rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk gan ddefnyddio'r geiriad **Cyhoedduswydd a Brandio** yn nheitl eich e-bost.

**Atodiad 1****Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig  
2014-2020****Canllawiau Brandio RhDG - Taflen Gryno Logos**

<b>Math o Logo</b>	<b>Pryd y dylid ei ddefnyddio</b>
EAFRD UE a Llywodraeth Cymru (Iliw)	Ar bob dogfen a chyhoeddiad ar gefndir lliw a gwefannau sy'n ymwneud â gweithgarwch Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig.
Baner UE yn unig heb ddatganiad (Lliw neu Ddu a gwyn)	Ar eitemau hyrwyddo bach iawn, oherwydd prinder lle, gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Rheolwr Cyfathrebu neu Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru.
EAFRD UE a Llywodraeth Cymru (du a gwyn) ac UE yn unig	O dan amgylchiadau eithriadol, gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Rheolwr Cyfathrebu neu Uned Gymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru, gellir ei ddefnyddio ar ddogfennau word safonol lle mae gan gyhoeddiadau gefndir gwyn.
EARFD UE/WG, LEADER (Iliw)	Ar bob dogfen sy'n ymwneud â gwaith Datblygu Lleol Cymunedol a chyhoeddiadau gweithgareddau LEADER (a gwefannau)
EAFRD UE/WG a LEADER (Du a gwyn)	GIF

**Atodiad 2**

**CYNNWYS ASTUDIAETHAU ACHOS – Dylid e-bostio astudiaethau achos at [rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk](mailto:rhwydwaithgwledig@cymru.gsi.gov.uk) a'u cyhoeddi ar wefan ENRD.**

Teitl	
Crynodeb	
Cefndir	
Amcan	
Prif weithgareddau	
Canlyniadau a Manteision	
Gwersi a ddysgwyd	
Lleoliad y Prosiect a gwybodaeth arall	
Sir	
Tiriogaeth y Rhaglen Datblygu Gwledig	Cymru
Cynllun y derbyniwyd y grant ganddi	
Mesur	
Cyfanswm cost y prosiect (€)	€
Cyfraniad grant gan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 - 2020 (€)	€
Cyfraniad preifat (€)	€
Gwefan y prosiect	
Enw cyswllt	
E-bost	
Rhif ffôn	
Ieithoedd cysylltu	
Dyddiad diweddaru	